Diffoddwch eich tapiau ar
22 Hydref rhwng
5pm a 10pm
ac ymunwch â ni i wella
gwybodaeth pobl am ddŵr

TAP PAUSE LEVELUP

Sut i arbed dŵr yn yr ysgol

1. Casglu dŵr gormodol a'i ddefnyddio'n ddoeth

Rhowch focsys hufen iâ gwag o dan ffynhonnau dŵr yr ysgol a defnyddiwch y dŵr sydd dros ben i ddyfrio'r ardd.

2. Diffodd y tap os nad yw'n cael ei ddefnyddio

Diffoddwch y tap unwaith y byddwch wedi golchi'ch dwylo. Rhowch arwyddion wrth y sinciau i atgoffa disgyblion i wneud yr un peth.

3. Rhoi gwybod am ollyngiadau

Rhowch wybod ar unwaith am unrhyw dapiau, ffynhonnau dŵr neu doiledau sy'n gollwng fel y gellir eu trwsio. Gwnewch hi'n weithgaredd ystafell ddosbarth i wirio am ollyngiadau'n rheolaidd.

4. Defnyddio cynhwysydd i olchi'ch brwsys

Golchwch frwsys paent mewn bwced neu gynhwysydd hufen iâ, yn hytrach nag o dan dap sy'n rhedeg.

NOSON DDŴR

Wedi'i ddod atoch gan
waterwise

Wedi'i noddi atoch gan
DEWCH i ARBED DŴR. LET'S SAVE WATER.

5. Defnyddio potel ddŵr y gellir ei hail-lenwi

Dewch â photel ddŵr i'r ysgol. Ar ddiwedd y dydd, gellir tywallt unrhyw ddŵr sydd dros ben yn yr ardd.

6. Siarad ag eraill am ddŵr

Gallwch godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dŵr drwy greu posteri lliwgar ar ddefnyddio dŵr ac arbed dŵr. Gallwch hyd yn oed ddechrau eich tîm arbed dŵr eich hunan.

7. Gosod awyryddion ar dapiau

Siaradwch â'ch cydlynydd cynnal a chadw er mwyn gosod awyryddion ar y tapiau yn eich ysgol. Mae awyryddion yn lleihau faint o ddŵr sy'n llifo o'r tap hyd at 50%, gan gadw'r un pwysedd dŵr.

8. Defnyddiwch gasgenni dŵr

Siaradwch â'ch pennaeth, cydlynydd cynnal a chadw a chyngor yr ysgol am osod casgenni dŵr. Ar ôl eu gosod, gallwch gysylltu'r tanciau â'ch toiledau neu ddefnyddio'r dŵr ar gyfer gerddi eich ysgol neu'ch rhandir llysiau.